# Cyfraniad Adra i effaith gymdeithasol 2015-2021

## Astudiaeth gyfannol sy'n ymgorffori iechyd, effaith economaidd a lles

## Crynodeb gweithredol



AFALLEN

# Ynglŷn â'r adroddiad hwn

Mae'r adroddiad hwn yn grynodeb o ganfyddiadau Afallen, yn deillio o gasglu a dadansoddi data a gynhaliwyd rhwng mis Mawrth a mis Gorffennaf 2021.

Rydym yn ddiolchgar i gydnabod cefnogaeth llawer o staff a rhanddeiliaid Adra wrth ddarparu data, a thrwy gasglu eu straeon bob dydd am sut maent yn canfod y gefnogaeth y mae Adra yn ei darparu.

Paratowyd yr adroddiad hwn gan Dr David Clubb gyda chefnogaeth Angharad Owen, Caryl Lewis, Mark Drane, Dr Mark Lang, Nikira Bowen a Peter Trott.

Llun clawr blaen wedi'i ddarparu gan Adra.

# Rhagarweiniad

Mae effaith Adra ar y cymunedau y mae'n eu gwasanaethu yn ddwys ac yn cael ei chydnabod gan fwyafrif y tenantiaid, yn ogystal ag ystod eang o randdeiliaid.

Wrth ymgymryd â'r gwaith hwn, gwnaethom ddadansoddi ac asesu data ansoddol a meintiol o lawer o wahanol feysydd gweithgaredd Adra.

Mae'r dystiolaeth yn dangos bod Adra yn sefydliad angor effeithiol a phwysig wrth ddarparu gwasanaethau sy'n gysylltiedig â llesiant, fel tai a chefnogi cwsmeriaid bregus, yn y cymunedau y mae'n eu gwasanaethu.

Mae Adra hefyd wedi chwarae rhan bwysig iawn mewn ymateb cydlynol, aml-randdeiliad i bandemig Covid-19. Mae ymateb Adra wedi cael ei lywio gan ddealltwriaeth ddofn ei weithlu am yr heriau y mae cwsmeriaid Adra a'r gymuned ehangach yn eu hwynebu.

Mae ein dadansoddiad economaidd-gymdeithasol yn dangos bod rhai o'r ardaloedd lleol a wasanaethir gan Adra yn wynebu heriau hirsefydlog sy'n gysylltiedig ag iechyd, addysg a chyfleoedd economaidd.

Mae'r pandemig wedi tueddu i waethygu anghydraddoldeb sy'n bodoli eisoes, gan dynnu sylw at rôl Adra wrth liniaru effaith Covid-19 ar gwsmeriaid a chymunedau ehangach.

Mae rôl hanfodol Adra mewn nifer o sectorau yr effeithiwyd arnynt fwyaf gan donnau olynol o haint a chyfnod clo wedi ei gwthio i reng flaen darparu gwasanaeth, ffactor a gydnabyddir ac a werthfawrogir gan gwsmeriaid a rhanddeiliaid ehangach.

Mae Adra yn dangos ei fod yn cydweddu'n dda â'r Ffyrdd o Weithio fel y'i diffinnir gan Ddeddf Cenedlaethau'r Dyfodol; hirdymor, atal, integreiddio, cydweithio a chynnwys.

Mae hefyd yn cydweddu'n dda â'r dull Economeg Toesen, a gyda'r Safon Adrodd ar Gynaliadwyedd. Rydym wedi adrodd ar ddata meintiol ac ansoddol.

Rydym yn annog y darllenydd i beidio â gor-bwysleisio'r gwerth ariannol rydyn ni'n ei gyfrifo, ar draul y stori sy'n cael ei hadrodd o ran y deilliannau nad oedd modd eu cysylltu â gwerth ariannol.

Nodweddir presenoldeb Adra yn y gymuned gan filoedd o weithredoedd o garedigrwydd a phroffesiynoldeb bob dydd, ac er ei bod yn fwy heriol adrodd ar y canlyniadau hyn nag ar werth ariannol, maent o leiaf yr un mor bwysig.

# Yr hyn a ddywedodd pobl wrthym

Mae'r adborth, o holiaduron a chyfweliadau manwl, yn gadarnhaol iawn, gyda dim ond ychydig o feysydd wedi'u hamlygu'n anfoddhaol gan rai ymatebwyr. Rydym yn asesu bod Adra yn gweithio'n effeithiol gyda rhanddeiliaid i ddarparu gwasanaethau o ansawdd da sy'n diwallu anghenion y cwsmeriaid a'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu.


Dywedodd cwsmeriaid, staff a rhanddeiliaid wrthym fod Adra yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i ansawdd bywydau pobl a'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu. Mae'r dystiolaeth, a gasglwyd, yn awgrymu bod Adra yn agored, yn dryloyw ac yn hyblyg yn ei ddull. Mae Adra yn annog diwylliant dysgu sy'n ymdrechu at ragoriaeth, gwelliant parhaus ac yn annog arloesedd.

Mae'r adborth wedi'i ddangos yn dda yn y graff isod sy'n dangos cyfran y rhanddeiliaid sy'n cytuno â datganiadau ynghylch sut mae Adra yn gweithio mewn partneriaeth, a'r gwahaniaeth y mae Adra yn ei wneud i gymunedau lleol.

Ymhob achos, roedd mwy na 75% o'r ymatebwyr yn cytuno, neu'n cytuno'n gryf, â datganiadau am berfformiad cadarnhaol Adra; nid oedd unrhyw ymatebydd yn anghytuno'n gryf ag unrhyw un o'r datganiadau.

Mae adborth rhanddeiliaid, staff a chwsmeriaid wedi tynnu sylw at feysydd blaenoriaeth ar gyfer datblygu er mwyn cynnal ansawdd gwasanaeth a diwallu deilliannau ac anghenion cwsmeriaid:

- Mynd i'r afael ag unigrwydd ac arwahanrwydd cymdeithasol
- Gwella cefnogaeth iechyd meddwl ac ymyrraeth gynnar
- Cynyddu cefnogaeth rheoli dyled a chyflogadwyedd
- Cefnogi cwsmeriaid i ddatblygu sgiliau digidol, gwella mynediad at fand eang ac offer.
- Uwchraddio blociau llety hŷn, gan sicrhau eu bod yn addas at y diben
- Gwella ymatebolrwydd atgyweirio tai
- Sicrhau bod cynlluniau ehangu/twf yn cynnwys cynllunio gweithlu effeithiol, er mwyn sicrhau capasiti/staffio/seilwaith ystafell gefn digonol i ddelio â'r gofynion cynyddol.



# Yn eu geiriau eu hunain

## Cwsmeriaid

*“Maen nhw'n gwmni teg gyda safonau uchel”*

*“Maen nhw'n wych, parod iawn i helpu”*

*“Mae'n ymddangos eu bod nhw i gyd yn gweithio'n dda fel tîm ac mae pethau'n cael eu datrys yn eithaf cyflym pan fyddaf yn codi rhywbeth”*

*“Mae llawer o bethau bach am y tŷ yn hel ar ôl amser ac maen nhw'n effeithio ar eich iechyd a'ch lles, mae'n achosi straen mawr i mi”*

*“Mae'r hyn maen nhw wedi'i wneud i mi yn anhygoel, maen nhw wedi'i addasu i safon uchel er mwyn i mi allu dod adref, mae wedi'i addasu'n llwyr ar gyfer cadair olwyn, hyd yn oed yr ardd, maen nhw wedi mynd tu hwnt i'r hyn oedd yn ddisgwyliedig, ac alla i ddim diolch digon iddyn nhw."*

## Staff




*“Rydw i wir wrth fy modd yn gweithio i Adra, rydw i'n teimlo'n rhan o dîm ac yn cael fy ngwerthfawrogi gan reolwyr a chydweithwyr."*

*“Dwi'n teimlo bod Adra yn ehangu'n gyflym a bod angen i ni gymryd cam yn ôl a sicrhau nad yw ansawdd rhai gwasanaethau cymorth yn dioddef o ganlyniad, rydym eisoes wedi ein hymestyn”.*

*“Mae ansawdd wedi gwella ac mae arbenigeddau yn ein maes wedi datblygu”*

*“Cyflogwr rhagorol, sy'n benderfynol o wella a chyflawni llwythi mwy yn y dyfodol wrth i'r cwmni fynd yn ei flaen”*

## Rhanddeiliaid




*“Cwmni cyfan gwbl wych!”*

*“Llongyfarchiadau ar eich llwyddiant - mae'n anghredadwy pa mor gyflym y mae'r cwmni wedi datblygu a thyfu dros y blynyddoedd”*

*“Yn falch iawn o weld holi am farn rhanddeiliaid, gan edrych ymlaen at weld Adra yn mynd o nerth i nerth”*

*Mae Tîm Datblygu Adra yn rhagweithiol iawn ac yn bartner hawdd i weithio gydag ef”*


# Dau fframwaith ar gyfer gwerthuso effaith gymdeithasol

**£286m**

Cyfanswm gwerth allbynnau a chanlyniadau Adra yn ôl model y Chwe Economi.

**£52m**

Cyfraniad at effaith gymdeithasol sy'n deillio o ganlyniadau gweithgaredd Adra o 2015-2021 gan ddefnyddio methodolegau yn seiliedig ar HACT a TOMs




Mae ein hasesiad yn defnyddio dau ddull gwahanol, y ddau wedi'u hanelu at gael mewnweledIad i agweddau ar weithgaredd Adra.

Ein dull cyffredinol oedd cymryd golwg gyfannol ar holl weithgareddau Adra, gan ddefnyddio ein model Chwe Economi arloesol, i gwmpasu cymaint o werth cymdeithasol â phosibl. Prisiad economaidd yw hwn sy'n ymgorffori ystod eang o ganlyniadau o weithgarwch Adra, gan gynnwys dangosyddion cymdeithasol, iechyd a llesiant, yn ogystal â'r swm sy'n cael ei wario mewn gwahanol sectorau o'r economi. Cyfrifwyd cyfanswm gwerth y model hwn fel £286m.

Gwnaethom hefyd gyfrifo 'Cyfraniad i Effaith Gymdeithasol' o ddeilliannau'r gwaith y mae Adra yn ei wneud i'w gwsmeriaid a'i randdeiliaid. Roedd hyn yn cynnwys dwy fethodoleg ar ganfyddiadau gwerth y mae pobl yn eu cael o wahanol ymyriadau, sef HACT[1] a TOMs[2] Cymru. Dangosodd y ddwy fethodoleg hyn werth sylweddol yn deillio o weithgarwch Adra ar draws ystod eang o sectorau, megis datrys Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, darparu tai y gall tenantiaid eu fforddio, cefnogi cwsmeriaid sy'n profi anawsterau ariannol, a chanlyniadau sy'n deillio o gynnal a chadw eiddo yn amserol. Cyfrifwyd cyfanswm gwerth y dull hwn fel £52m.

Er bod yr adroddiad hwn wedi defnyddio methodolegau sefydledig i nodi cyfraniad i economïau lleol, mae'n amlwg bod Adra yn darparu ystod ehangach o wasanaethau sy'n cael effaith gadarnhaol ar ei denantiaid a'i randdeiliaid ehangach mewn ffyrdd na ellir eu mesur gan ddefnyddio'r methodolegau hyn. Rydym wedi ceisio cydbwyso methodolegau traddodiadol o adrodd yn erbyn CSI ehangach gan ddefnyddio methodolegau cyfannol a sefydledig.

Mae ein dull yn hybrid sy'n cydbwyso'n briodol yr awydd i ddeall mor fanwl â phosibl y cyfraniad ehangach a wneir gan Adra yn ei gymunedau, gyda dull strwythuredig offerynnau cyfrifo HACT a TOMs Cymru.

[1]Datblygwyd gan Ymddiriedolaeth Elusennol y Gymdeithas Dai (HACT) a'i ddefnyddio o dan drwydded
[2]Datblygwyd gan y Tasglu Gwerth Cymdeithasol Cenedlaethol gyda chefnogaeth WLGA, a'i ddefnyddio o dan drwydded


# Y Model Chwe Economi

Mae pob methodoleg adrodd economaidd yn wynebu cyfyngiadau gwahanol ond sylweddol wrth gipio data o ganlyniad i'w dull methodolegol. Mae dull y Chwe Economi yn ein galluogi i ddal elfennau sydd yn gyffredinol yn absennol o fethodolegau eraill, megis y gwerth cymdeithasol o Adra yn lleihau effaith $CO_2$ neu reoli asedau tir o safbwynt ecolegol. Yr economïau yw:


- Economi ddiwylliannol
- Economi gyfiawn
- Economi llesiant
- Economi sylfaenol
- Economi iechyd y blaned
- Economi gylchol

Rydym wedi disgrifio'r perthnasoedd rhwng gwahanol gydrannau pob un o'r economïau ar fap meddwl (drosodd). Mae gweithgarwch Adra wrth ddarparu llety diogel a fforddiadwy yn gosod y rhan fwyaf o'i effaith yn yr economi Sylfaenol, sy'n cwmpasu tai, yn ogystal â rhai agweddau ar iechyd, gofal cymdeithasol a chynnal incwm.

Fodd bynnag, cynhyrchodd Adra werth sylweddol yn yr economïau Cyfiawn a Llesiant sydd â chysylltiad cryf â dau o Nodau Llesiant Cymru. Mae cyfraniad cryf Adra i'r Economi Gyfiawn yn cydweddu â 'Cymru sy'n fwy cyfartal'; ac mae ei gyfraniad i'r Economi Llesiant yn cefnogi cyflwyno 'Cymru Iachach'.




*Data ar weithgaredd Adra ym mhob un o'r Chwe Economi. Nid oedd gennym ddigon o ddata i allu meintioli gwerth y gweithgarwch yn deillio o'r economïau Cylchol a Diwylliannol*


Chwe economi
Diwylliannol (Nod Llesiant)
Gwasanaethau dylunio a chreadigol
Cyfryngau clyweledol a rhyngweithiol
Treftadaeth ddiwylliannol a naturiol
Perfformio a dathlu
Celf a chrefft gweledol
Llyfrau a'r wasg
Cymraeg
Diwylliant bywiog, lle mae'r Gymraeg yn ffynnu
TOMS -prosiectau i gefnogi'r Gymraeg
Tebygolrwydd llai o Alzheimers
Gwellhad cyflymach ar ôl strôc
Iechyd gwell
Hunan-barch gwell (plant)
Rhagolygon gyrfa gwell
Enillion uwch
Mwy o oddefgarwch tuag at ddiwylliannau eraill
Deilliannau addysgol gwell
% o bobl sy'n gallu siarad Cymraeg (Dangosydd Deddf Llesiant)
% o bobl sy'n siarad Cymraeg yn ddyddiol (Dangosydd Deddf Llesiant)
Cyswllt â'r economi syfaenol
Cyfiawn (Nod Llesiant)
Trafnidiaeth gyhoeddus
Mwynderau dinesig
TOMs - Cronfa Buddsoddi Economaidd
Gofod cyhoeddus
Isadeiledd trafnidiaeth gweithredol
HACT - Datrys ASB (50%)
HACT - Gallu talu am dai (50%)
Cymru fwy cyfartal
TOMs - Mesurau Addasu Tai
TOMs - Grant Cymorth Tai
TOMs - Gwasanaeth Cymorth Tenantiaeth (50%)
Sylfaenol
Materol
Cyfleustodau
Bwyd (cynhyrchu, prosesu, dosbarthu)
Manwerthu stryd fawr
Tai
HACT - Gallu talu am dai
HACT - Aelwydydd a arbedwyd rhag digartrefydd (Dangosydd Deddf Llesiant
HACT - Pobl ddigartref yn cael tai diogel
Cynhaliol
Addysg
Addysg/hyfforddiant
TOMs a HACT
Iechyd a gofal cymdeithasol
Cymru Iachach
Cynnal incwm
HACT - Darparu cymorth ar faterion ariannol trwy CAB
Cyflogau staff Adra (cyn-YC a phensiwn)
Cylchol
Cyfran y cynhyrchion a ddefnyddiwyd/ailgylchwyd/ adnewyddwyd/ailweithgynhyrchwyd a brynwyd
Y defnydd o fio-gynhyrchion
Cynhyrchu cynhyrchion organig megis compost
TOMS - Eitemau a roddwyd
Llesiant (Nod Llesiant)
Nodau Llesiant
Cymru Lewyrchus
HACT - Gallu talu am dai (50%)
Cymru Gydlynus
HACT - Datrus ASB (50%)
HACT - canlyniadau o'r Strategaeth Gymunedol
TOMs - Gwasanaeth Cymorth Tenantiaeth (50%)
TOMs - Cymhorthion ac addasiadau
Iechyd y blaned (Nod 'Cyfrifol ar lefel fyd-eang', llesiant)
Carbon isel
Gweithgareddau strategaeth datgarboneiddio
Ynni adnewyddadwy wedi'i osod (Dangosydd Deddf Llesiant)
% o dai ag effeithlonrwydd ynni digonol (Dangosydd Deddf Llesiant)
TOMs - gwerth y carbon a arbedwyd o ganlyniad i weithgareddau datgarboneiddio
Ecoleg a natur
Isadeiledd gwyrdd a glas
Cymru gyfrifol ar lefel fyd-eang
Cymru gydnerth


# Cyfraniad i Effaith Gymdeithasol (CSI)

Er mwyn cynhyrchu gwerthoedd sy'n gyson â methodolegau safonol yn y sector tai cymdeithasol, gwnaethom addasu dwy fethodoleg bresennol, HACT a TOMs Cymru. Mae methodoleg HACT yn deillio o ganllawiau Trysorlys EM ar werthuso polisi, ac mae'n defnyddio gwerth llesiant a roddir i ddeilliant penodol.

Er enghraifft, byddai datrys ymddygiad gwrthgymdeithasol, neu gymryd rhan yn rheolaidd mewn gweithgaredd grŵp gwirfoddol, yn cyfrif fel deilliannau 'gwerthfawr', ac yn cael gwerth ariannol, pe byddent yn ganlyniadau uniongyrchol gweithgarwch Adra.

Mae gwerth cymdeithasol HACT yn canolbwyntio ar ganlyniadau i denantiaid. Mae TOMs Cymru yn caniatáu i ni ystyried ystod ehangach o ddangosyddion yn seiliedig ar ddangosyddion sefydliadol ehangach.

Mae TOMs Cymru yn ddeilliad penodol i Gymru o ddull gwerth cymdeithasol y DU sy'n ymgorffori holl ofynion Pecyn Cymorth Buddion Cymunedol Llywodraeth Cymru. Mae'n defnyddio Cronfa Ddata Costau Uned Llywodraeth y DU wedi'i hategu gan ddata Ystadegau Cymru i ddarparu gwerth cymdeithasol dirprwyol o ddangosydd penodol. Yn bwysig, ychydig iawn o orgyffwrdd sydd rhwng y ddwy fethodoleg, sy'n caniatáu i ni gyfuno eu gwerthoedd i greu cyfanswm gwerth cymdeithasol o £51m ar sail gweithgarwch Adra.



# Dilysu ychwanegol


Fel rhan o'n hasesiad o berfformiad Adra, gwnaethom asesu'r sefydliad yn erbyn dau fframwaith ychwanegol.

Mae'r cyntaf o'r rhain yn seiliedig ar fodel Toesen sy'n amlinellu set o ddangosyddion gyda'r nod o wella tegwch mewn cymdeithas - y sylfaen gymdeithasol - ac adfer amgylchedd gwydn a bioamrywiol - y nenfwd amgylcheddol. Y gofod rhwng y 'terfynau' hyn yw'r doesen; y lle diogel a chyfiawn i ddynoliaeth o fewn economi adfywiol a dosbarthol.

Gwnaethom ddarganfod nid yn unig fod Adra yn perfformio'n gryf yn erbyn y rhan fwyaf o'r wyth dangosydd yr oeddem yn gallu asesu yn eu herbyn, ond ei fod yn cydweddu'n gryf â'r pum nodwedd gynhyrchiol sy'n rhan o fframwaith economeg Toesen.

| Nodwedd Toesen | Sut mae Adra'n cydweddu |
|---|---|
| Diben | Mae Adra yn bodoli i ddarparu tai fforddiadwy o ansawdd da, ac i gefnogi'r cymunedau y mae'n gweithredu ynddynt |
| Llywodraethu | Nid yw'r Gymdeithas yn masnachu er elw, ac nid oes unrhyw beth yn cael ei dalu na'i drosglwyddo fel elw i gyfranddalwyr y Gymdeithas. Mae unrhyw warged yn cael ei ail-fuddsoddi yn y Gymdeithas |
| Rhwydweithiau | Wedi'i wreiddio'n gryf mewn ystod o rwydweithiau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol; a gyda sefydliadau cyhoeddus, preifat a thrydydd sector |
| Perchnogaeth | Mae Adra yn Gymdeithas Budd Cymunedol ac yn Landlord Cymdeithasol Cofrestredig |
| Cyllid | Mae Adra yn buddsoddi ar gyfer enillion cymdeithasol hir a phwrpasol |

Gwnaethom hefyd asesu Adra yn erbyn menter a lansiwyd ym mis Tachwedd 2020 ac a anelwyd at y sector tai, sef y Safon Adrodd ar Gynaliadwyedd. Roedd Adra yn gyfranogwr cynnar yn y cynllun. Rydym yn canfod bod Adra yn perfformio'n gryf yn erbyn y 48 maen prawf, gan gydweddu â 36 ohonynt.



# Argymhellion

Mae methodolegau sefydledig yn awgrymu bod yna ystod o gamau y gall Adra eu cymryd i symleiddio a chyflymu'r adrodd yn erbyn HACT a TOMs Cymru. Yn ogystal, mae model y Chwe Economi wedi helpu i nodi'r meysydd hynny lle mae Adra yn cael effaith gadarnhaol ond lle mae'n anoddach meintioli effeithiau o'r fath.

Yn seiliedig ar ein hymchwil a'n dadansoddiad, rydym yn awgrymu'r argymhellion cyffredinol canlynol i wella cyflymder a chywirdeb adrodd ar effaith neu werth cymdeithasol:

- Ymgorffori cwestiynau HACT 'safonol' o fewn rhaglen barhaus o ymgysylltu â thenantiaid er mwyn osgoi defnyddio data dirprwyol a chydweddu'n dynnach â methodoleg HACT sefydledig

- Ymchwilio i'r potensial i fathau newydd o ymgysylltu â thenantiaid, fel apiau symudol, er mwyn ymgorffori holiaduron fel rhan o ddull cyfannol o gasglu data

- Mewn amgylchedd sydd â chyfyngiadau ar adnoddau, blaenoriaethu casglu data ar gyfer yr agweddau hynny ar fethodoleg HACT a fydd yn sicrhau'r cyfraniad mwyaf i economïau lleol, megis datrys materion ymddygiad gwrthgymdeithasol (ASB), lliniaru digartrefedd, fforddiadwyedd tai neu gyfranogiad tenantiaid mewn hyfforddiant, gwirfoddoli neu ymgysylltu cymdeithasol arall

- Defnyddio methodoleg TOMs Cymru yn y broses gaffael i'w gwneud yn ofynnol i gyflenwyr adrodd ar gyfraniad at effaith gymdeithasol ar raglenni a phrosiectau mewnol ar ran Adra.

- Cydweddu'n agosach â methodolegau sefydledig i symleiddio casglu data ar ddeilliannau prosiectau.

- Creu'r cyfrifoldeb am adroddiad effaith cymdeithasol blynyddol yn fewnol a darparu adnoddau i drefnu a symleiddio casglu data. Bydd hyn yn dileu'r angen i gaffael arbenigwyr allanol i ddarparu'r gwaith, ac yn gwreiddio arbenigedd mewn gwerth cymdeithasol yn y sefydliad.

Rydym hefyd wedi gwneud argymhellion yn ymwneud â hwyluso casglu data yn adrannau perthnasol y prif adroddiad.



# Edrych ymlaen

Mae Adra yn sefydliad blaengar yn gymdeithasol sy'n gwneud cyfraniad sylweddol i'w economïau lleol a rhanbarthol. Mae ein hymgysylltiad ag ystod o randdeiliaid, staff a chwsmeriaid yn darparu tystiolaeth sy'n cefnogi ein casgliadau dadansoddol; Mae Adra yn sefydliad allweddol, sy'n ymwneud â llu o weithgareddau sy'n cefnogi gweithgaredd cymunedol a lles economaidd-gymdeithasol yn yr ardaloedd y mae'n gweithredu ynddynt.

Mae Adra wedi gwneud cyfraniad sylweddol wrth ddiogelu iechyd, cefnogi llesiant a chyfrannu at economïau lleol dros y cyfnod a aseswyd gan yr astudiaeth hon. Gwelir effaith Adra gan y myrdd o newidiadau a wnaed mewn ymateb i'r pandemig.

Bu’r newidiadau hyn yn angenrheidiol wrth gynnig darpariaeth rheng flaen, ac maent hefyd wedi amlygu rôl Adra fel partner rhanbarthol pwysig, sy’n gallu trosoli ymddiriedaeth a rhwydweithiau a ddatblygwyd dros gyfnod hir. Mae'r adborth gan staff, rhanddeiliaid a chwsmeriaid yn gadarnhaol iawn, ac mae’n darlunio Adra fel sefydliad sy'n dod yn fwyfwy pwysig a dylanwadol yn lleol, tra’n cynnal ystwythder sydd wedi caniatáu iddo ymateb yn gyflym i heriau economaidd-gymdeithasol diweddar.

Er efallai ein bod yn dal i fod yn y camau cynnar o ddeall gwir natur newidiadau systemig i gymdeithas o ganlyniad i’r pandemig, mae’n ymddangos yn fwy tebygol na pheidio na fydd mynd yn ôl at ‘fusnes fel arfer’. Mae gallu Adra i gydnabod angen ac i addasu yn dangos gwytnwch sefydliadol sy'n awgrymu y bydd mewn sefyllfa dda i barhau i gefnogi ei gwsmeriaid.

Mae adrodd ar effaith gymdeithasol yn ymarfer defnyddiol, nid yn unig ynddo'i hun, ond oherwydd gall helpu i lywio trafodaethau ynghylch pa wasanaethau newydd sydd eu hangen, a'r hyn nad yw bellach yn hyfyw neu'n angenrheidiol. Er enghraifft, er bod ymateb i'r pandemig yn flaenoriaeth uniongyrchol a hollol ddilys, mae argyfyngau newid yn yr hinsawdd a natur yn dal gyda ni, ac yn tyfu'n fwyfwy brys.

Mae safle pwysig Adra yn y gadwyn gyflenwi leol yn rhoi cyfle i raeadru dealltwriaeth o werth cymdeithasol trwy'r gadwyn gaffael a chyflenwi, gyda rhanddeiliaid, ac yn fewnol gyda staff.

Mae Adra eisoes wedi cychwyn ar raglen datgarboneiddio uchelgeisiol; a oes cyfle, wrth i Gymru geisio ‘adeiladu’n ôl yn well’,  i fandadu bod datblygiadau newydd yn cael eu creu gyda natur fel cydran allweddol? A ellir rheoli portffolio tir presennol Adra er budd natur, efallai mewn partneriaeth ag eraill?

Bydd newid yn yr hinsawdd yn gofyn am feddylfryd ‘Cenedlaethau’r Dyfodol’, gan greu enillion lluosog o ymyriadau unigol. Mae seilwaith gwyrdd sy'n lleihau lefelau gwres amgylchynol, yn lleihau dŵr glaw ffo  ac yn gwella iechyd meddwl a chorfforol yn enghraifft berffaith o ddull cyfannol o ddatrys problem benodol. Gallai mynd y tu hwnt i strwythur corfforol yr adeiladau er mwyn ymgorffori dull sy’n seiliedig ar natur (fel y safon ‘adeiladu gyda natur’[3]) fod yn strategaeth ddefnyddiol. Bydd amgylchedd lleol sydd wedi’i wella â natur yn gwella lles corfforol a meddyliol cwsmeriaid Adra ar yr un pryd, yn ogystal â chynhyrchu myrdd o fuddion ar gyfer ecoleg leol. Efallai y bydd atebion cyfannol o’r fath yn bosibl mewn sawl maes yn sectorau darparu gwasanaethau Adra.

[3]Gweler buildingwithnature.org.uk i gael mwy o wybodaeth

Heb amheuaeth, bydd brys cynyddol ein her hinsawdd yn creu anawsterau difrifol mewn rhai meysydd o ymateb cymdeithas, ond mae cyfleoedd hefyd i wella canlyniadau yn gyffredinol, gan fynd y tu hwnt i addasu a lliniaru argyfwng hinsawdd. Mae cyfleoedd Adra i wella deilliannau yn y dyfodol yn dibynnu ar ddeall cyfeiriad corfforol (cysylltiedig â'r hinsawdd) a chyfeiriad polisi tebygol Llywodraeth Cymru a'r DU. Mae'r ffaith bod gan Adra strategaeth ddatgarboneiddio a'i bod yn gorfodi lefelau uchel o berfformiad thermol ar gyfer tai yn y dyfodol yn ddangosyddion da.

Mae ymgysylltiad Adra â’r pwnc effaith gymdeithasol yn ganmoladwy. Credwn fod gan Adra’r sgiliau, y profiad a'r gallu sefydliadol i gynnal asesiadau ar effaith gymdeithasol. Gallai ymgymryd â'r broses hon yn fewnol roi mewnwelediadau ychwanegol i Adra i agweddau ar werth cymdeithasol a fydd yn dylanwadu ar ddull strategol ac yn sicrhau canlyniadau cadarnhaol ychwanegol ar draws pob maes gweithgaredd.

Bob blwyddyn mae Afallen yn rhoi 10% o'i elw i achosion da

Afallen LLP
Britannia House
Van Rd
Caerffili
CF83 3GG

afallen.cymru